

LLYWODRAETH CYMRU

GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO A CHANIATADAU CYSYLLTIEDIG ERAILL:

CANLLAW I'R FFURFLEN GAIS SAFONOL ('1APP') A DILYSU CEISIADAU

Gan fod pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru eisoes yn defnyddio'r ffurflen gais safonol, bach iawn fydd y newid pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym. Wedi hyn bydd yn orfodol i geisiadau ar gyfer nifer o ganiatadau gael eu gwneud ar y ffurflen 1APP (gweler y tabl ar dudalen 6 o'r Cylchlythyr 002/2012).

O 1 Gorffennaf 2012 bydd rhai anghenion sydd wedi eu gosod yn y polisi cenedlaethol yn cael eu cynnwys ar y ffurflen 1APP. O'r dyddiad hwnnw, bydd paragraffau 35 i 39 yn dod yn weithredol. Ni fydd y cyfnod penderfynu a osodir yn Erthygl 22, o ran ceisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio, yn dechrau hyd nes y bydd yr holl wybodaeth wedi cyflen wi fel y gofynnir amdani ar y ffurflen sydd wedi yw cyhoeddi ar yr un pryd ar cais.

LLYWODRAETH CYMRU

GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO A CHANIATADAU CYSYLLTIEDIG ERAILL:

CANLLAW I'R FFURFLEN GAIS SAFONOL ('1APP') A DILYSU CEISIADAU

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	3
Termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon	4
Y Cefndir	5
Yr arfer cyfredol wrth ddilysu ceisiadau cynllunio	6
Y gofynion newydd am wybodaeth	7
Deddfwriaeth berthnasol	8
Cyngor cyn ymgeisio	8
Gwybodaeth sy'n ategu ceisiadau	9
Tabl 1 - Gofynion Dilysu ar gyfer Ceisiadau Cynllunio	10
Gofynion dilysu lleol	12
Tabl 2 - Egwyddorion a Meini Prawf ar gyfer paratoi gofynion dilysu lleol	
Blwch A – Y broses a argymhellir ar gyfer paratoi gofynion gwybodaeth lleol	
Ystyriaethau pellach yng nghyswllt gofynion dilysu lleol	13
Y broses ddilysu	15

Atodiad

A(1): Gofynion Dilysu ar gyfer Gwahanol Fathau o Geisiadau	18
A(2): Arweiniad ar y Gofynion Gwybodaeth Cenedlaethol	26
B: Enghreifftiau o Ofynion Dilysu Lleol	35

Cyflwyniad

1. Mae gwasanaeth cynllunio sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn gofyn am brosesau effeithlon a chymesur. Bydd gofynion disgwyliadwy a dealladwy yn helpu ymgeiswyr i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol ar ddechrau'r broses benderfynu, gan alluogi awdurdodau cynllunio lleol i wneud penderfyniadau o ansawdd yn gynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi awdurdodau cynllunio lleol i ddefnyddio'r Ffurflen Gais Safonol Genedlaethol ar-lein (y cyfeirir ati'n aml fel '1APP') ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio a chyfundrefnau caniatâd cysylltiedig eraill er mwyn cefnogi cyflwyno ceisiadau yn electronig. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer dilysu ceisiadau cynllunio a chaniatadau cysylltiedig eraill wedi'u cynnwys yn y canllaw hwn, yn ogystal ag arweiniad ar y gofynion o ran gwybodaeth ategol ychwanegol. Bydd awdurdodau cynllunio lleol yn gallu cynhyrchu a mabwysiadu gofynion dilysu lleol ar gyfer ceisiadau am ddatblygiadau mawr.
2. Mae defnyddio'r gwasanaeth '1APP' ar-lein, drwy'r Porth Cynllunio, yn cefnogi agenda Llywodraeth Cymru i wella'r broses ceisiadau cynllunio. Canfu'r astudiaeth a oedd yn archwilio'r broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru fod yna ddiffyg cysondeb ledled Cymru o ran y gweithdrefnau ar gyfer dilysu a chofrestru ceisiadau cynllunio. Roedd yr adroddiad terfynol (Mehefin 2010)¹ yn argymhell cyflwyno canllawiau safonol ar y gofynion dilysu er mwyn cyfrannu at benderfyniadau cadarn. Cefnogwyd hyn yn Ymateb y Llywodraeth.²
3. Mae dilysu'n cynrychioli penderfyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol ynghylch a yw cais a gyflwynwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol dan y gyfraith i alluogi'r awdurdod i ddechrau'r broses o benderfynu ar roi neu wrthod caniatâd cynllunio. Yn anad dim, mae'n cadarnhau dechrau'r cyfnod amser statudol lle mae'n rhaid i awdurdod benderfynu ar gais.
4. I ategu'r defnydd o'r gwasanaeth '1APP' ar-lein, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer trin gwahanol fathau o geisiadau. Mae'r newidiadau'n datgan y bydd yn rhaid defnyddio'r Ffurflen Gais Safonol Genedlaethol ar-lein o 30 Ebrill 2012 ymlaen ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o geisiadau. Hefyd, rhaid cyflwyno lefel sylfaenol o wybodaeth cyn y caiff y cais ei ystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol.
5. Mae'r canllaw hwn yn cefnogi defnyddio'r Ffurflen Gais Safonol, ac mae'n darparu cyngor ar y wybodaeth y dylid ei chyflwyno gyda cheisiadau cynllunio.

¹ Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru, Llywodraeth y Cynulliad, Mehefin 2010
<http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/planningapproach/papers/planningappstudy/?skip=1&lang=cy>

² Ymateb Llywodraeth Cynllunio Cymru i'r Argymhellion a wnaethpwyd yn yr 'Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru' Llywodraeth y Cynulliad, Mehefin 2010
<http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/planningapproach/papers/planningappstudy/?skip=1&lang=cy>

Termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

6. Mae llawer o dermau'n codi'n aml drwy gydol y ddogfen hon. Rhoddir eglurhad isod o'r rhai a ddefnyddir yn fwyaf aml:

- **Ffurflen Gais Safonol** – y ffurflen gais orfodol a ddefnyddir ym mhob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru ar gyfer caniatâd cynllunio a chyfundrefnau caniatâd cysylltiedig. Mae'n hysbysu'r ymgeisydd am y wybodaeth a fydd yn ofynnol i gefnogi cais.
- **Gofynion Dilysu Cenedlaethol** – mae gofynion dilysu cenedlaethol, er enghraifft Datganiad Dylunio a Mynediad, yn ofynnol yn ôl y gyfraith a hebddynt ni ellir prosesu'r cais. Mae Atodiad A(1) ac Atodiad A(2) yn egluro'r gofynion cenedlaethol ac o dan ba amgylchiadau y maent yn ofynnol.
- **Gofynion Dilysu Lleol** – gwybodaeth ychwanegol y gall awdurdodau cynllunio lleol fynnu ei chael i ddilysu cais cynllunio am ddatblygiad mawr.
- **Cais annilys** – lle mae ymgeisydd yn cyflwyno cais nad yw'n ateb y gofynion dilysu cenedlaethol a lleol.
- **Ar ôl dilysu** – y cyfnod pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn fodlon bod ganddo gais cynllunio dilys i benderfynu yn ei gylch.
- **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefnau Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO)** – mae'r Gorchymyn hwn yn nodi'r gofynion ar gyfer cyflwyno a phenderfynu ar geisiadau cynllunio a materion cysylltiedig.
- **Datblygiad Mawr** – caiff ei ddiffinio fel datblygiad sy'n cynnwys unrhyw un neu fwy o'r canlynol:
 - cloddio neu gaffael mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gwaith mwynau;
 - datblygu gwastraff;
 - darparu tai annedd lle mae
 - (i) nifer y tai annedd a ddarperir yn 10 neu'n fwy
 - (ii) bydd y datblygiad ar safle gydag arwynebedd sy'n fwy na 0.5 hectar ac ni wyddys a yw'r datblygiad yn disgyn o fewn cwmpas paragraff (c)(i);
 - darparu adeilad neu adeiladau lle mae maint y llawr a gaiff ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu'n fwy; neu
 - datblygiad ar safle gydag arwynebedd sy'n 1 hectar neu'n fwy.

Y Cefndir

7. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y byddai'r broses gynllunio'n gwella'n arw drwy ddefnyddio'r Ffurflen Gais Safonol ledled Cymru, p'un ai a gyflwynir y cais cynllunio'n electronig dros y we neu ar bapur. Yn y gorffennol, roedd awdurdodau lleol yn cael llunio eu ffurflenni cais cynllunio eu hunain, ond roedd y wybodaeth yr oedd awdurdodau yn gofyn amdani gan ymgeiswyr yn amrywio'n fawr. Bellach, rhaid defnyddio'r Ffurflen Gais Safonol i gyflwyno ceisiadau am y rhestr ganlynol o ganiatadau:
 - Cais cynllunio amlinellol a llawn (gan gynnwys Datblygiadau gan Ddeiliaid Tŷ)
 - Cymeradwyo materion a gadwyd yn ôl
 - Tynnu neu amrywio amodau
 - Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon
 - Caniatâd dan Orchmynion Cadw Coed
 - Caniatâd Hysbyseb
 - Caniatâd Adeilad Rhestredig, a
 - Chaniatâd Ardal Gadwraeth
8. Nid oes rhaid defnyddio'r Ffurflen Gais Safonol ar gyfer rhai ceisiadau:
 - Dylid parhau i wneud ceisiadau am ddatblygiad sy'n cynnwys mwyngloddio neu ddefnyddio'r tir ar gyfer dyddodion mwynau ar ffurflen a ddarperir gan yr awdurdod cynllunio lleol.
 - Mae ceisiadau i benderfynu a yw'n ofynnol cael 'cymeradwyaeth ymlaen llaw' gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer agweddau ar ddatblygiad yn aros yr un peth. Caiff hynny ei bennu o hyd yn Rhan berthnasol o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO), fel y'i diwygiwyd ar gyfer Cymru. Er y gellir gwneud cais o'r fath gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais Safonol a manteisio ar gyflwyno'r cais yn electronig drwy hynny, yr unig beth sy'n ofynnol o dan y GPDO yw ei fod yn cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig.

Yr arfer cyfredol wrth ddilysu ceisiadau cynllunio

9. Mewn ymchwil a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru³, canfuwyd bod amrywiaeth fawr yn y wybodaeth yr oedd awdurdodau yn gofyn amdani gan ymgeiswyr er mwyn cefnogi cais cynllunio ac yn lefel y manylder a ystyriwyd yn dderbyniol.
10. Dyma rai o'r rhesymau cyffredin dros oedi ac anghytundeb y dylid eu hosgoi wrth gyflwyno ceisiadau i awdurdodau cynllunio lleol:
 - dogfennau ategol nad ydynt yn cynnwys y wybodaeth a bennir yn y nodiadau canllaw sydd ynghlwm wrth y ffurflen gais cynllunio a/neu a nodwyd mewn canllawiau cenedlaethol, cynllun datblygu statudol neu ganllawiau cynllunio atodol;
 - nid yw'r lluniadau a gyflwynwyd yn cynnwys manylion digonol fel y pennwyd yn y nodiadau canllaw neu roeddent yn anghyson;
 - nodwyd cyfeiriadau gwahanol ar gyfer y cais ar y ffurflenni a'r lluniadau;
 - mae'r gwaith adeiladu'n ymwthio dros eiddo cyfagos;
 - tystysgrifau wedi'i llofnodi'n anghywir neu heb eu llofnodi o gwbl;
 - heb gyflwyno nifer ddigonol o blaniau a ffurflenni;
 - anghysondeb rhwng gweddluniau a phlantiau llawr;
 - heb amgáu'r ffioedd cywir neu siec am y ffi heb ei lofnodi; a
 - gwybodaeth annigonol o hyd ar ôl gofyn i'r ymgeisydd am ragor o fanylion o leiaf unwaith.

³ Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2010
<http://wales.gov.uk/topics/planning/planningresearch/planningappprocess/papers/planningappstudy/?skip=1&lang=cy>

Y gofynion newydd am wybodaeth

11. Pwrpas y trefniadau dilysu newydd yw:

- darparu arweiniad am y math o wybodaeth a all fod angen ei darparu ar y dechrau;
- galluogi'r awdurdod cynllunio lleol i roi sicrwydd i'r ymgeiswyr o ran y wybodaeth y bydd yn rhaid ei darparu;
- galluogi'r awdurdod cynllunio lleol i fod â'r holl wybodaeth angenrheidiol yn eu meddiant er mwyn penderfynu ar y cais;
- lleihau'r angen i ddarparu rhagor o wybodaeth yn ddiweddarach er mwyn rhoi cyfle rhesymol i awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar geisiadau o fewn y cyfnod amser ar gyfer penderfynu a bennir yn Erthygl 22 o'r DMPWO;
- galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gynnal ymgynghoriadau mewn modd effeithlon a phrydlon, gan leihau'r angen am gynnal ymgynghoriad arall neu gynnal ymgynghoriad dilynol, ac osgoi drysu ymgynghoreion trydydd parti;
- sicrhau cysondeb yn y dull a ddefnyddir gan wahanol awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru wrth gofrestru a dilysu ceisiadau, ond gan gydnabod bod angen amrywiad sy'n briodol i'r amgylchiadau lleol ar gyfer datblygiad mawr.

Deddfwriaeth berthnasol

12. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â chofrestru a dilysu ceisiadau cynllunio a chaniatadau cysylltiedig yn cynnwys:

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989;
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995;
- Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012;
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992;
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999;
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

Cyngor cyn ymgeisio


13. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu hannog i geisio sicrhau bod cyngor cyn ymgeisio ar gael. Mae trafodaethau ar gyfer yr holl fathau o geisiadau'n cael eu hannog i dywys ymgeiswyr drwy'r broses. Ond yn sicr, dylid cael trafodaeth cyn ymgeisio gyda'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer pob cais am ddatblygiad mawr. Gall y trafodaethau cyn ymgeisio helpu i ddelio'n fwy effeithlon â'r ceisiadau drwy esbonio gweithdrefnau'r awdurdod cynllunio, yr amserlen debygol ar gyfer cael penderfyniad, a'r gofynion gwybodaeth. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y ddogfen 'Gwireddu potensial trafodaethau cyn ymgeisio' yn 2011, gan gynnwys canllaw arfer drafft i helpu i sicrhau bod y manteision hynny'n cael eu gwireddu. Bydd hefyd yn cyhoeddi fersiwn derfynol y canllaw, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yr haf hwn.

Gwybodaeth sy'n ategu ceisiadau

- 14.** Bydd y wybodaeth y bydd yn rhaid ei darparu i wneud cais dilys yn dibynnu ar y math o ganiatâd y gwneir cais amdano. Er mwyn gallu cofrestru'r ceisiadau'n rhai 'dilys', rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani ar y Ffurflen Gais Safonol, unrhyw gynlluniau, lluniadau, tystysgrifau ac asesiadau ategol ychwanegol y cyfeirir atynt ar y ffurflen neu sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth. Rhaid talu ffi hefyd ar gyfer rhai mathau o gais. Ceir arweiniad ar y gofynion dilysu cenedlaethol yn Atodiad A(1) ac Atodiad A(2). Caiff yr awdurdod cynllunio lleol lunio a mabwysiadu 'Gofynion Dilysu Lleol' a bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth hon os byddant yn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer 'datblygiad mawr'.
- 15.** Mae rhestrau o'r gofynion gwybodaeth ar gyfer y gwahanol fathau o geisiadau wedi cael eu cyhoeddi yng Nghylchlythyr 02/12 Llywodraeth Cymru 'Canllaw i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar Ddefnyddio'r Ffurflen Gais Safonol ('1APP') a Dilysu Ceisiadau', ond ceir fersiwn gryno yn Atodiad A(1). Mae Tabl 1 yn dangos y gofynion o ran cais dilys am ganiatâd cynllunio amlinellol neu lawn ar gyfer datblygiadau bach a mawr (heb gynnwys ceisiadau gan ddeiliaid tŷ).
- 16.** Mae'r Ffurflen Gais Safonol yn nodi y gall fod angen darparu rhagor o wybodaeth ar gyfer rhai ceisiadau. Rhestrir y materion hyn yn Atodiad A(1) ynghyd â chroesgyfeiriad at Atodiad A(2). Yn y rhain ceir cyngor am y gofynion cenedlaethol hyn a'r amgylchiadau pan fydd rhaid darparu'r cyfryw wybodaeth.
- 17.** Cydnabyddir na fydd modd cyflwyno dogfennau ategol bob amser yn electronig oherwydd maint ac amrywiaeth y wybodaeth. Dan yr amgylchiadau hyn, ceir darparu copi caled o'r dogfennau hyd yn oes os cafodd y cais ei hun ei gyflwyno'n electronig.

Tabl 1: Gofynion Dilysu ar gyfer Cais Cynllunio Llawn neu Amlinellol ar gyfer Datblygiad Bach a Mawr (ac eithrio Ceisiadau gan Ddeiliaid Tŷ)

Cais Cynllunio Dilys:



Gofynion Dilysu Lleol

18. Os yw awdurdodau cynllunio lleol yn bwriadu pennu gofynion dilysu lleol ar gyfer ceisiadau cynllunio mawr⁴, dylent wneud hynny drwy ymgynghori ar eu gofynion a'u cyhoeddi ar eu gwefan. Dylai'r gofynion dilysu lleol gynnwys gwybodaeth ychwanegol y bydd yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ei chael er mwyn dilysu cais. Wrth baratoi gofynion dilysu lleol, cynghorir awdurdodau cynllunio lleol yn gryf i bennu'r wybodaeth sylfaenol sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniad ynglŷn â chais. Bydd defnyddio'r Ffurflen Gais Safonol, sy'n ymgorffori'r gofynion cenedlaethol ynghyd â'r gofynion dilysu lleol, yn rhoi mwy o sicrwydd i'r awdurdod a'r ymgeisydd am y math o wybodaeth sy'n ofynnol ar y dechrau ac yn helpu i wneud yn siŵr bod y wybodaeth y gofynnir amdani'n gymesur â'r math o gais sy'n cael ei wneud a'i faint.
19. Mae gan awdurdodau'r hawl i benderfynu pa wybodaeth ddylai gael ei chynnwys yn eu rhestr leol. Ond rhaid iddynt wneud yn siŵr bod y gofynion gwybodaeth yn glir, yn gymesur ac yn rhai y gellir eu cyfiawnhau. Pan fo datblygiad mawr neu anghyffredin yn cael ei gynnig, dylid cynnal trafodaeth cyn ymgeisio ar y gofynion gwybodaeth, a chael cytundeb arnynt. Mae'r gofynion dilysu lleol yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn Nhabl 2 isod. Ceir enghreifftiau o'r math o ofynion y gellir eu defnyddio ar gyfer y gofynion dilysu lleol yn Atodiad B.

Tabl 2:

Egwyddorion a meini prawf ar gyfer paratoi gofynion dilysu lleol

Egwyddor	Prif Ystyriaethau
Anghenraid	Dylai'r holl ofynion dilysu lleol hwyluso dealltwriaeth o sut mae'r datblygiad arfaethedig yn gweithredu polisïau'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd neu genedlaethol, neu sut nad ydynt yn eu tanseilio.
Manwl gywir	Dylid bod yn glir lle (yn ddaearyddol) y mae'r gofyniad gwybodaeth yn codi. Dylid bod yn glir yn union pa fathau o ddatblygiad y mae'n rhaid darparu gwybodaeth ategol ar eu cyfer.
Cymesuredd	Lle bo'n bosibl, dylai'r gofynion dilysu lleol nodi trothwyon o ran maint. O dan y trothwyon hyn, ni ddylai fod angen cyflwyno gwybodaeth. Lle bo'n bosibl, dylid defnyddio dull graddedig ar gyfer y wybodaeth ofynnol (e.e. yn dibynnu ar faint neu

⁴ Mae "Datblygiad mawr" yn cael ei ddiffinio ym mharagraff 6.

sensitifrwydd y cynnig).

Addas i'r pwrpas Dylai fod yn glir pa wybodaeth sy'n ofynnol i fodloni'r gofyniad – gyda phwyslais cadarn ar annog dull cymesur a chryno.

Cymorth Ar gyfer pob elfen o'r gofynion, dylai fod yn glir lle gellir cael rhagor o wybodaeth neu atebion i ymholiadau.

20. Bydd proses ymgynghori awdurdodau cynllunio lleol yn fodd i ddarpar ymgeiswyr brofi eglurder eu gofynion dilysu lleol cyn y bydd y gofynion yn cael eu mabwysiadu a'u cyhoeddi. Gall awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar y drefn ymgynghori sydd fwyaf priodol i'w hamgylchiadau lleol. Ond, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y broses a ddisgrifir ym Mlwch A isod.

Blwch A : Y broses a argymhellir ar gyfer pennu'r gofynion gwybodaeth lleol ar gyfer ceisiadau cynllunio

- Y pwyllgor perthnasol yn penderfynu ymgynghori ar y gofynion dilysu lleol arfaethedig ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiad mawr.
- Dylai'r cyfnod ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol bara chwe wythnos o leiaf. Dylai'r rhanddeiliaid perthnasol gynnwys:
 - Ymgynghoreion statudol
 - Cyngorau Tref/Cymuned
 - Grwpiau cymunedol a gwirfoddol perthnasol e.e. Grwpiau Preswylwyr
 - Fforymau ymgeiswyr/asiantau neu grŵp cynrychiadol o asiantau
- Adolygu sylwadau ac adrodd yn ôl er mwyn i'r pwyllgor perthnasol basio a mabwysiadu'r gofynion dilysu lleol.
- Cyhoeddi'r gofynion dilysu lleol a fabwysiadwyd ar wefan yr awdurdod cynllunio lleol (a drwy'r Porth Cynllunio) yn ogystal â darparu copïau papur yn nerbynfa'r adran cynllunio neu ar gais.

21. Does dim terfyn amser statudol ar gyfer mabwysiadu gofynion dilysu lleol. Fodd bynnag, oni bai a nes y bydd awdurdod cynllunio lleol yn cyhoeddi ei ofynion dilysu lleol ar ei wefan, ni fydd unrhyw ofynion lleol yn effeithio ar ddilysrwydd ceisiadau y byddant yn eu derbyn. Yn yr amgylchiadau hyn, cydymffurfio â gofynion y Ffurflen

Gais Safonol fydd yr unig beth a ddefnyddir i benderfynu a yw cais yn ddilys neu beidio. Dylai awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno'r gofynion dilysu lleol y byddant wedi'u mabwysiadu i'r Porth Cynllunio cyn gynted ag y gallant er mwyn gwneud yn siŵr bod ffurflenni cais electronig yn adlewyrchu'r gofynion gwybodaeth diweddaraf.

22. Dylai awdurdodau adolygu eu gofynion dilysu lleol yn rheolaidd ac, os byddant yn bwriadu gwneud newidiadau (heblaw am fân newidiadau), dylent ail-ymgynghori a mabwysiadu gofyniad newydd. Mae modd gwneud mân newidiadau i roi sylw i newidiadau statudol neu arweiniad gan Lywodraeth Cymru heb orfod cynnal ymgynghoriad neu adolygiad llawn. Pan wneir newidiadau o'r fath, dylai'r rhain gael eu nodi'n glir ar y wybodaeth a ddarperir gan yr awdurdod cynllunio lleol ar ei wefan, ar gopiâu papur ac ar y Porth Cynllunio.

Ystyriaethau pellach yng nghyswllt gofynion dilysu lleol

23. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol ofyn am wybodaeth sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniad yn unig ac ni ddylent fynnu bod ymgeiswyr yn darparu lefel o fanylder sy'n afresymol neu'n anghymesur â maint y cais.
24. Mae'r Ffurflen Gais Safonol yn gofyn am y mathau mwyaf cyffredin o wybodaeth a dogfennau ategol sydd i'w cyflwyno ar gyfer ceisiadau. Ond, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd y wybodaeth hon sy'n ofynnol yn genedlaethol yn gallu bodloni holl ofynion lleol pob awdurdod cynllunio lleol. Er y bydd rhestrau lleol yn mynnu bod y cyfryw wybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer datblygiadau mawr, gellir parhau i ofyn am y wybodaeth ar gyfer ceisiadau eraill ond ni waeth a fydd yn cael ei darparu neu beidio, ni fydd yn effeithio ar ddechrau'r cyfnod penderfynu (neu'r 'cloc'). Dylai'r awdurdod cynllunio lleol wneud yn siŵr bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r angen i ddarparu'r wybodaeth honno drwy ddefnyddio'r drafodaeth cyn ymgeisio.
25. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ragweld yr angen am ragor o wybodaeth a all godi yn ystod y broses ymgeisio, er enghraifft oherwydd ymateb gan ymgynghorai statudol neu bobl â diddordeb. Er y gellir gosod amodau sy'n mynnu bod adroddiadau manwl yn cael eu cyflwyno fel un o amodau'r caniatâd cynllunio (gan gynnwys caniatâd amlinellol), dylai awdurdodau gofio am Gylchlythyr 35/95 Swyddfa Cymru ar y pwnc 'Defnyddio Amodau mewn Caniatâd Cynllunio'. Ni ddylid defnyddio amodau i ymdrin â materion sy'n sylfaenol i egwyddor datblygu, megis presenoldeb rhywogaeth a warchodir. Dylid dwyn sylw ymgeiswyr at yr angen am wybodaeth leol benodol a gofynion ymgymerwyr statudol drwy'r drafodaeth cyn ymgeisio er mwyn osgoi ceisiadau mynych diweddarach am ragor o wybodaeth.

Y broses ddilysu ar gyfer ceisiadau am ganiatâd cynllunio

26. Pan dderbynnir Ffurflen Gais Safonol, dylid anfon llythyr at yr ymgeisydd erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf, yn cadarnhau dyddiad cychwyn y cyfnod statudol ar gyfer gwneud penderfyniad a'r dyddiad y gellir dechrau apelio.
27. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu hannog i gyflawni eu gwiriad 'dilysu' cynhwysfawr erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf ar ôl derbyn y ffurflen, er y derbynnir nad yw hyn bob amser yn bosibl. Ond, dylai awdurdodau cynllunio lleol benderfynu'n brydlon a yw ceisiadau'n ddilys (cyn pen 5 diwrnod gwaith o ddyddiad derbyn y cais ar gyfer ceisiadau bach, a chyn pen 7 diwrnod gwaith ar gyfer ceisiadau mawr).
28. Yn y bôn dylai dilysu ceisiadau am ganiatâd cynllunio fod yn broses weinyddol i weld a yw'r dogfennau a'r ffi gywir (os yw'n briodol) wedi'u cyflwyno. Os bydd ymgeisydd yn cyflwyno cais nad yw'n darparu'r holl wybodaeth yr oedd y Ffurflen Gais Safonol yn gofyn amdani, megis asesiadau ategol, y cynlluniau gofynnol, y ffi a'r gofynion dilysu lleol, bydd gan yr awdurdod yr hawl i ddod i'r casgliad bod y cais yn annilys, ac felly'n gwrthod penderfynu arno.
29. Pan fydd cais yn cael ei ystyried yn annilys, dylai'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu'r ymgeisydd am ei resymau cyn gynted â phosibl. Dylai awdurdodau cynllunio allu cyfiawnhau'r angen am unrhyw wybodaeth a oedd ar goll, a rhoi eu rhesymau i'r ymgeisydd. Argymhellir bod awdurdodau cynllunio lleol yn rhoi eu rhesymau yn ysgrifenedig er mwyn osgoi unrhyw ddryswch ac yn nodi'r wybodaeth ofynnol er mwyn gwneud y cais yn un dilys.
30. Dylai awdurdodau cynllunio lleol wrthod dilysu ceisiadau cynllunio oni ddarperir y wybodaeth yr oedd y Ffurflen Gais Safonol yn gofyn amdani. Yn achos asesiadau ategol ychwanegol y cyfeirir atynt ar y Ffurflen Gais Safonol, megis asesiad trafndiaeth neu asesiad o ganlyniadau llifogydd, bydd angen i awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod gofynion y Ffurflen yn cael eu bodloni, gan gyfeirio at bolisi ac arweiniad yn 'Polisi Cynllunio Cymru' a chyngor yn y Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol.
31. Os ceir bod cais yn annilys oherwydd bod yr awdurdod cynllunio lleol o'r farn nad yw'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y DMPWO neu eu gofynion dilysu lleol wedi'i darparu, nid oes hawl apelio i Weinidogion Cymru. Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno herio penderfyniad bod cais yn annilys yn y fath amgylchiadau ystyried gweithdrefnau eraill, megis hawliad am adolygiad barnwrol ar sail gyfreithiol. Mewn achosion lle mae awdurdod cynllunio lleol yn teimlo bod **ansawdd** y deunydd a ddarparwyd yn annigonol a bod y cyfnod penderfynu wedi dod i ben, caiff ymgeiswyr apelio i'r Arolygiaeth Cynllunio ar sail methu penderfynu dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae gan ymgeiswyr hefyd yr hawl ymhob achos i gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar sail camweinyddu.

- 32.** Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol lenwi ffurflenni chwarterol a'u hanfon i Lywodraeth Cymru. Defnyddir y ffurflenni hyn i ddangos perfformiad Awdurdodau Cynllunio Lleol yn unol â'r cyfnodau amser ar gyfer penderfyniadau a bennir yn Erthygl 22 o'r DMPWO a nod cyffredinol Llywodraeth Cymru y dylid penderfynu ar 80% o'r holl geisiadau cynllunio cyn pen 8 wythnos. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn cynnwys nifer y ceisiadau y penderfynwyd arnynt yn y categorïau mawr, bach ac 'eraill', yn ogystal â'r nifer y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnod targed o 8 wythnos.
- 33.** Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chwblhau'n gyson, dylid rhoi sylw i'r canlynol:
- dylid rhoi dyddiad derbyn y cais ar y ceisiadau;
 - mae'r cyfnod amser rhwng cyflwyno'r cais a chael penderfyniad yn dechrau ar y diwrnod y derbynnir cais dilys a'r ffi gywir (os oes ffi i'w thalu). Os yw'r cais wedi'i gyflwyno'n electronig y tu allan i oriau busnes yr awdurdod cynllunio lleol, cymerir ei fod wedi'i dderbyn ar y diwrnod gwaith nesaf; ac at y diben hwn mae "diwrnod gwaith" yn golygu diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gŵyl y Banc neu ŵyl gyhoeddus arall;
 - os canfyddir yn ddiweddarach bod cais a oedd yn ddilys i bob golwg yn annilys ar ôl cofrestru, dylid anwybyddu'r dyddiad cychwyn gwreiddiol ar gyfer prosesu'r cais. Dylai'r amser rhwng cyflwyno'r cais a chael penderfyniad ddechrau eto ar y dyddiad y gwneir y cais yn ddilys. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd siec yn cael ei gwrthod. Yn yr achos hwn bydd y cyfnod penderfynu yn cael ei ohirio nes bydd y ffi lawn yn cael ei thalu;
 - wrth benderfynu ar gais, rhaid peidio â stopio'r cyfnod prosesu ('y cloc') ac eithrio pan fydd siec wedi'i gwrthod.
 - dylai'r amser pan roddir cais o'r neilltu dros dro (er enghraifft, wrth ddisgwyl i gytundeb adran 106 gael ei lofnodi) gael ei gynnwys yn y cyfanswm amser a gymerir, a rhaid peidio â gohirio'r cyfnod prosesu tra disgwylir am gynlluniau diwygiedig neu wybodaeth ychwanegol arall ar gyfer penderfynu ar y cais (oni bai eu bod yn angenrheidiol i ddilysu'r cais); ac
 - mae'r cyfnod prosesu yn dod i ben ar y dyddiad y bydd hysbysiad o benderfyniad yn cael ei anfon. Ni chaiff y 'cloc' ei stopio ar sail penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol neu ei bwyllgor priodol yn unig.

Atodiad A (1) Gofynion Dilysu ar gyfer Mathau Gwahanol o Geisiadau

Dylid darllen yr atodiad hwn ar y cyd ag Atodiad A(2) ac â'r ddeddfwriaeth ffynhonnell

Rhestr 1: Cais Cynllunio Llawn am Ddatblygiad gan Ddeiliaid Tŷ	Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad
<p>1. Ffurflen Gais Safonol</p> <ul style="list-style-type: none">- Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 chopi- Gan gynnwys tystysgrif perchnogaeth a thystysgrif daliadau amaethyddol wedi'u cwblhau <p>Gwybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani ar y Ffurflen Gais Safonol lle mae'r cynigion datblygu'n bodloni'r gofynion a bennir:</p> <ul style="list-style-type: none">- Arolwg ac adroddiad bioamrywiaeth	B2 B9-B10 B12
<p>2. Planiau a gwybodaeth berthnasol</p> <ul style="list-style-type: none">- Oni chânt eu cyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 chopi- Plan o'r lleoliad- Plan, lluniadau neu wybodaeth arall sy'n ofynnol i ddisgrifio'r datblygiad arfaethedig. Er nad yw wedi'i bennu yn y DMPWO, gall y planiau / lluniadau gynnwys:<ul style="list-style-type: none">- Plan o'r safle- Gweddlluniau presennol a'r gweddlluniau a argymhellir- Planiau llawr presennol a'r rhai a argymhellir- Trawsluniau presennol a'r rhai sy'n cael eu hargymell ar gyfer y safle a lefelau gorffenedig y safle a'r lloriau *(A)- Planiau'r to presennol a'r rhai sy'n cael eu hargymell *(B)	B3 B4-B6 B7-B8

	<p>* Amgylchiadau:</p> <p>A - Mewn achosion lle mae newid i lefelau'r tir yn cael ei argymell</p> <p>B – Lle mae newid neu estyniad i do yn cael ei argymell</p> <p>- Rhaid llunio planiau / lluniadau i raddfa glir ac, yn achos planiau, rhaid dangos cyfeiriad y gogledd.</p> <p>Gofynion polisi cenedlaethol</p> <p>- Arolwg ac adroddiad bioamrywiaeth</p>	B14-B17
3.	Ffi	B13

<p>Rhestr 2 :</p> <p>Cais Cynllunio Llawn neu Amlinellol ar gyfer Datblygiad Bach a Mawr (ac eithrio ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid tŷ)</p>	<p>Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad</p>
<p>1. Ffurflen Gais Safonol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 chopi - Gan gynnwys tystysgrif perchnogaeth a thystysgrif daliadau amaethyddol wedi'u cwblhau <p>Gwybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani ar y Ffurflen Gais Safonol lle mae'r cynigion datblygu'n bodloni'r gofynion a bennir:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Arolwg ac adroddiad bioamrywiaeth - Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd - Asesiad Risg Cloddio am Lo - Asesiad Sŵn - Asesiad Effaith Manwerthu - Gwerthusiad Anheddau Mentrau Gwledig - Asesiad Trafnidiaeth - Arolwg Coed <p>Parheir i wneud ceisiadau am ddatblygiad sy'n cynnwys mwyngloddio neu ddefnyddio'r tir ar gyfer dyddodion gwaith mwynau ar ffurflen a ddarperir gan yr awdurdod cynllunio lleol a rhaid cynnwys y manylion a bennir neu y cyfeirir atynt ar y ffurflen honno.</p>	<p>B2</p> <p>B9-B10 B12</p> <p>B14-B17 B29-B31 B32 B33 B34 B35 B36 B37</p>
<p>2. Planiau a gwybodaeth berthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> - oni chânt eu cyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 chopi - Plan o'r lleoliad - Planiau, lluniadau neu wybodaeth arall sy'n ofynnol i ddisgrifio testun y datblygiad arfaethedig. Er nad yw wedi'i bennu yn y DMPWO, gall y planiau / lluniadau 	<p>B3</p> <p>B4-B6</p> <p>B7-B8</p>

gynnwys:

- Plan o'r safle
- Plan bloc
- Gweddoluniau presennol a'r gweddoluniau a argymhellir *(A)
- Planiau llawr presennol a'r rhai a argymhellir
- Trawsluniau presennol a'r rhai sy'n cael eu hargymell ar gyfer y safle a lefelau gorffenedig y safle a'r lloriau *(B)
- Planiau'r to presennol a'r rhai sy'n cael eu hargymell *(C)

* Amgylchiadau

- A – Ddim yn ofynnol ar gyfer newid defnydd tir heb waith adeiladu neu waith ffisegol arall
- B – Mewn achosion lle mae newid i lefelau'r tir yn cael ei argymell
- C – Lle mae newid neu estyniad i do yn cael ei argymell

- Rhaid llunio planiau / lluniadau i raddfa glir ac, yn achos planiau, rhaid dangos cyfeiriad y gogledd.

B18-B26
B27-B28

Gofynion polisi / deddfwriaeth (lle bônt yn berthnasol):

- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Datganiad Amgylcheddol
- Y Comisiwn Rhyngwladol dros Amddiffyn rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys adeiladu neu osod antena at ddiben gweithredu rhwydwaith gyfathrebu electronig)

Gallai cais am ganiatâd cynllunio amlinellol hefyd ofyn am y canlynol:

- Os yw cynllun y datblygiad yn fater a gadwyd yn ôl, rhaid i'r cais nodi lleoliad bras yr adeiladau, y llwybrau a'r manau agored yn y datblygiad arfaethedig.
- Os yw'r maint yn fater a gadwyd yn ôl, rhaid i'r cais nodi'r terfyn uchaf ac isaf ar gyfer uchder, hyd a lled pob adeilad yn y datblygiad arfaethedig.
- Os yw'r mynediad yn fater a gadwyd yn ôl, rhaid i'r cais nodi'r ardal neu'r ardaloedd lle mae pwyntiau mynediad i'r datblygiad arfaethedig wedi eu lleoli.

3.	Ffi	B13
4.	Gofynion dilysu lleol (ceisiadau mawr yn unig)	Paragraff 17 yn y prif destun

Rhestr 3 :		Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad
Cymeradwyo Materion a Gadwyd yn ôl		
1.	Ffurflen Gais Safonol - Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 chopi	B2
2.	Planiau a gwybodaeth berthnasol - Plan, lluniadau neu wybodaeth arall sy'n ofynnol i ddisgrifio'r datblygiad arfaethedig. Er nad yw wedi'i bennu yn y DMPWO, gall y planiau / lluniadau gynnwys: - Plan o'r safle - Plan bloc - Gweddlluniau presennol a'r gweddlluniau a argymhellir *(A) - Planiau'r lloriau presennol a'r rhai sy'n eu hargymell *(A, B) - Trawsluniau presennol a'r trawsluniau sy'n cael eu hargymell ar gyfer y safle a lefelau gorffenedig y safle a'r lloriau *(A, B, C) - Planiau'r to presennol a'r rhai sy'n cael eu hargymell *(A, B) * Amgylchiadau: A – lle ceisir cymeradwyaeth am y mater 'ymddangosiad' a gadwyd yn ôl B – lle ceisir cymeradwyaeth am y mater 'maint' a/neu 'gynllun' a gadwyd yn ôl C – mewn achosion lle mae newid i lefelau'r tir yn cael ei argymell	B3 B7-B8
3.	Ffi	B13

Rhestr 4 :		Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad
Tynnu neu amrywio amod ar ôl rhoi caniatâd cynllunio		
1.	Ffurflen Gais Safonol - gan gynnwys tystysgrif perchnogaeth a thystysgrif daliadau amaethyddol wedi'u cwblhau	B2 B9-B10 B12
2.	Planiau a gwybodaeth berthnasol Gofynion polisi / deddfwriaeth (lle bônt yn berthnasol): - Datganiad Dylunio a Mynediad - Datganiad Amgylcheddol - Y Comisiwn Rhyngwladol dros Amddiffyn rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys adeiladu neu osod antena at ddiben gweithredu rhwydwaith gyfathrebu electronig)	B18-B26 B27-B28
3.	Ffi	B13

Rhestr 5 :		Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad
Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd, gwaith neu weithgarwch presennol gan gynnwys y rheini sy'n torri amod cynllunio		
1.	Ffurflen Gais Safonol - Hynny o dystiolaeth y gall yr ymgeisydd ei darparu i ddilysu'r wybodaeth yn y cais.	B2
2.	Planiau a gwybodaeth berthnasol - Plan o'r lleoliad a luniwyd i raddfa glir ac sy'n dangos cyfeiriad y gogledd. - Os yw cais yn pennu mwy nag un defnydd, gweithgarwch neu fater arall, rhaid i'r plan sydd ynghlwm wrth y cais nodi pa ddefnydd a wneir o'r rhannau gwahanol o dir.	B4-B6
3.	Ffi	B13

Rhestr 6 : Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd neu ddatblygiad arfaethedig		Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad
1.	Ffurflen Gais Safonol - Hynny o dystiolaeth y gall yr ymgeisydd ei darparu i ddilysu'r wybodaeth yn y cais.	B2
2.	Planiau a gwybodaeth berthnasol - Plan o'r lleoliad a luniwyd i raddfa glir ac sy'n dangos cyfeiriad y gogledd. - Os yw cais yn pennu mwy nag un defnydd, gweithgarwch neu fater arall, rhaid i'r plan sydd ynghlwm wrth y cais nodi pa ddefnydd a wneir o'r rhannau gwahanol o dir.	B3 B4-B6
3.	Ffi	B13

Rhestr 7 : Caniatâd Hysbyseb		Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad
1.	Ffurflen Gais Safonol - oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 chopi	B2
2.	Planiau a gwybodaeth berthnasol - Plan sy'n nodi lleoliad y safle drwy gyfeirio at o leiaf dwy ffordd a enwir a safle arfaethedig yr hysbyseb. Bydd wedi'i lunio i raddfa glir gan ddangos cyfeiriad y gogledd.	B3 B4-B6
3.	Ffi	B13

<p>Rhestr 8 :</p> <p>Caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer addasu, ymestyn neu ddymchwel adeilad rhestredig</p>	<p>Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad</p>
<p>1. Ffurflen Gais Safonol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 chopi - Gan gynnwys tystysgrif perchnogaeth wedi'i llenwi 	<p>B2</p> <p>B9-B10</p>
<p>2. Planiau a gwybodaeth berthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Plan, lluniadau neu wybodaeth arall sy'n ofynnol i ddisgrifio'r datblygiad arfaethedig. Er nad ydynt wedi'u rhestru yn y Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth, caiff y planiau / lluniadau gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - Gweddlluniau presennol a'r gweddlluniau a argymhellir - Planiau llawr presennol a'r rhai a argymhellir - Trawsluniau presennol a'r rhai a argymhellir ar gyfer y safle a lefelau gorffenedig y safle a'r lloriau - Planiau'n dangos drysau, ffenestri, blaen siopau, paneli, llefydd tân, mowldiau plaster a manylion addurniadol eraill newydd - Planiau to presennol a'r rhai sy'n cael eu hargymell <p>Gofynion polisi / deddfwriaeth (lle bônt yn berthnasol):</p> <ul style="list-style-type: none"> - Datganiad Dylunio a Mynediad 	<p>B3</p> <p>B8</p> <p>B18-B26</p>

Rhestr 9 : Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel mewn Ardal Gadwraeth		Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad
1.	Ffurflen Gais Safonol <ul style="list-style-type: none"> - Oni chaiff ei chyflwyno'n electronig – y gwreiddiol a 3 chopi - Gan gynnwys tystysgrif perchnogaeth wedi'i llenwi 	B2 B9-B10
2.	Planiau a gwybodaeth berthnasol <ul style="list-style-type: none"> - Planiau, lluniadau neu wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r gwaith sy'n destun y cais. Er nad ydynt wedi'u rhestru yn y Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth, caiff y planiau / lluniadau gynnwys y gweddluniau presennol a'r rhai sy'n cael eu hargymell. <p>Gofynion polisi / deddfwriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Datganiad Dylunio a Mynediad 	B3 B8 B18-B26

Rhestr 10 :		Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad
Ceisiadau am Ganiatâd o dan Orchymyn Cadw Coed		
1.	Ffurflen Gais Safonol	B2
2.	Planiau a gwybodaeth berthnasol <ul style="list-style-type: none"> - Plan o'r lleoliad sy'n nodi'r goeden/coed y mae'r cais yn cyfeirio ati/atynt. - Hynny o wybodaeth sy'n ofynnol i ddisgrifio'r gwaith arfaethedig y gwneir cais amdano. - Datganiad o resymau'r ymgeisydd dros wneud y cais. - Fel y bo'n berthnasol, dylid darparu tystiolaeth briodol yn disgrifio unrhyw ddifrod strwythurol i eiddo neu mewn cysylltiad ag iechyd neu ddiogelwch y goeden. 	B3 B4-B6
3.	Ffi	B13

<p>Rhestr 11 :</p> <p>Cymeradwyaeth ymlaen llaw - Rhan 6 (Estyniadau ac adeiladau amaethyddol) a Rhan 7 (Adeiladau a gweithrediadau gwaith coed) o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995</p>	<p>Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad</p>
<p>1. Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig. Gall ymgeiswyr ddewis defnyddio'r Ffurflen Gais Safonol, ond nid yw'n orfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhaid cael disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig a'r deunyddiau a ddefnyddir ynghlwm wrth y cais. 	
<p>2. Planiau a gwybodaeth berthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Plan o'r lleoliad 	<p>B4-B6</p>
<p>3. Ffi</p>	<p>B13</p>

<p>Rhestr 12 :</p> <p>Cymeradwyaeth ymlaen llaw - Rhan 24 (Datblygiad gan weithredwyr codau cyfathrebu electronig) o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995</p>	<p>Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad</p>
<p>1. Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig. Gall ymgeiswyr ddewis defnyddio'r Ffurflen Gais Safonol, ond nid yw'n orfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhaid cael disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig ynghlwm wrth y cais. 	
<p>2. Planiau a gwybodaeth berthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Plan o'r lleoliad - Y Comisiwn Rhyngwladol dros Amddiffyn rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys adeiladu neu osod antenna at ddiben gweithredu rhwydwaith gyfathrebu electronig) - Tystiolaeth bod unrhyw berson arall (nid y datblygwr) sy'n denant neu'n berchen ar y tir wedi cael hysbysiad o'r datblygiad arfaethedig. - Os yw'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys gosod mast o fewn 3 cilomedr i berimedr maes glanio, rhaid darparu tystiolaeth fod yr ymgeisydd wedi hysbysu'r Awdurdod Hedfan Sifil, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn neu weithredwr y maes glanio. 	<p>B4-B6</p>
<p>3. Ffi</p>	<p>B13</p>

Rhestr 13 :		Paragraffau perthnasol yn Atodiad A(2) am arweiniad
Cymeradwyaeth ymlaen llaw - Rhan 31 (Dymchwel adeiladau) o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995		
1.	<p>Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig. Gall ymgeiswyr ddewis defnyddio'r Ffurflen Gais Safonol, ond nid yw'n orfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhaid cael disgrifiad ysgrifenedig o'r datblygiad arfaethedig ynghlwm wrth y cais. 	
2.	<p>Gwybodaeth berthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Datganiad bod yr ymgeisydd wedi arddangos hysbysiad ar y safle yn unol ag A.2(b)(iii) o Ran 31 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd). 	
3.	Ffi	B13

Atodiad A (2) – Arweiniad ar y Gofynion Gwybodaeth Cenedlaethol

A1. Dylid darllen yr arweiniad isod ar y cyd ag Atodiad A(1) ac â'r polisi neu ddeddfwriaeth ffynhonnell. Mae'n disgrifio i ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio lleol y gofynion gwybodaeth ar gyfer dilysu ceisiadau, a'r amgylchiadau lle bydd angen y wybodaeth. Mae arweiniad ychwanegol ar gael hefyd ar ffurf arferion gorau i helpu i fodloni'r gofynion cyfreithiol.

Y Ffurflen Gais Safonol (1APP)

A2. Mae Atodiad A(1) yn nodi'r mathau o ganiatâd y bydd angen defnyddio Ffurflen Gais Safonol ar eu cyfer o 30 Ebrill 2012 ymlaen. Mae'r Ffurflen Gais Safonol ar gael yn electronig ar y Porth Cynllunio neu gan awdurdodau cynllunio lleol.

A3. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i annog ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau yn electronig lle bo modd, gan fod hyn yn rhoi cyfleoedd i symleiddio gweithdrefnau a lleihau costau drwy hynny.

A4. Bydd ymgeiswyr yn dal i gael cyflwyno fersiynau papur o'r ffurflen, sydd hefyd ar gael ar wefan yr awdurdod lleol a gwefan y Porth Cynllunio. Pan fydd ffurflen bapur yn cael ei defnyddio, efallai y bydd yn rhaid darparu tri chopi ychwanegol ynghyd â'r Ffurflen Gais Safonol wreiddiol wedi'i llenwi gyda'r cais – mae'r rhestrau yn Atodiad A(1) yn nodi'r systemau caniatâd lle mae hyn yn ofyniad.

A5. Does dim rhaid defnyddio'r Ffurflen Gais Safonol ar gyfer ceisiadau penodol:

- Dylid parhau i wneud ceisiadau am ddatblygiad sy'n cynnwys mwyngloddio neu ddefnyddio'r tir ar gyfer dyddodion gwaith mwynau ar ffurflen a ddarperir gan yr awdurdod cynllunio lleol a rhaid cynnwys y manylion a bennir ar y ffurflen honno.
- Mae ceisiadau i benderfynu a yw'n ofynnol cael 'cymeradwyaeth ymlaen llaw' gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer agweddau ar ddatblygiad yn aros yr un peth. Caiff hynny ei bennu o hyd yn Rhan berthnasol Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO), fel y'i diwygiwyd ar gyfer Cymru. Er y gellir gwneud cais o'r fath gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais Safonol a manteisio felly ar gyflwyno'r cais yn electronig, yr unig beth sy'n ofynnol o dan y GPDO yw ei fod yn cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig ac i gynnwys y manylion a bennir yn y ddeddfwriaeth.

Tystysgrifau Perchnogaeth

A6. Rhaid cwblhau'r dystysgrif berthnasol sy'n ymwneud â pherchnogaeth y safle yn y cais. Mae dystysgrif perchnogaeth A, B, C neu D ar gael drwy'r Ffurflen Gais Safonol. At ddibenion y dystysgrifau hyn, 'perchennog' yw unrhyw un sydd â buddiant rhydd-ddaliadol, neu fuddiant lesddaliadol gydag o leiaf 7 mlynedd ar ôl ar y brydles.

- A7. Os nad yr ymgeisydd yw perchennog/perchnogion na thenant(iaid) y safle, rhaid cwblhau hysbysiad a'i gyflwyno yn unol ag Erthygl 10 o'r DMPWO. Rhaid ei gyflwyno i'r perchennog/perchnogion neu denant(iaid) cyn cyflwyno'r cais.
- A8. Does dim rhaid cael tystysgrifau perchnogaeth os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am faterion a gadwyd yn ôl, tystysgrif datblygiad cyfreithlon, caniatâd hysbyseb, caniatâd i wneud gwaith i goeden sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed, neu i benderfynu a oes angen 'cymeradwyaeth ymlaen llaw' gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer agweddau ar y datblygiad.

Tystysgrif Daliadau Amaethyddol

- A9. Rhaid cael y dystysgrif hon pa un a yw'r safle'n cynnwys daliad amaethyddol neu beidio. Rhaid hysbysu pob tenant amaethyddol cyn cyflwyno'r cais - yn unol ag Erthygl 10 o'r DMPWO.
- A10. Does dim rhaid cael y dystysgrif hon os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am faterion a gadwyd yn ôl, tystysgrif datblygiad cyfreithlon, caniatâd hysbyseb, caniatadau adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, caniatâd i wneud gwaith i goeden sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed, neu i benderfynu a oes angen 'cymeradwyaeth ymlaen llaw' gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer agweddau ar y datblygiad.

Gwybodaeth Ategol Ychwanegol y gofynnir amdani ar y Ffurflen Gais Safonol

Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth

- A11. Os yw cais yn debygol o effeithio ar Rywogaeth a Warchodir gan Ewrop, rhaid i'r ymgeisydd ymgynghori ag ecolegydd hyfforddedig annibynnol i ganfod effeithiau tebygol y cynnig. Bydd rhai cynigion, sy'n cynnwys gwaith megis dymchwel neu newid adeiladau hŷn neu ofod dan yn y to, cael gwared â choed, prysgwydd, perthi neu newidiadau i gyrsiau dŵr, yn gallu effeithio ar rywogaethau sy'n cael eu gwarchod a bydd angen i geisiadau ddarparu gwybodaeth am y rhain, unrhyw effeithiau posibl ac unrhyw gynigion i liniaru effeithiau o'r fath, er mwyn gallu ystyried yr effeithiau hynny'n llawn.
- A12. Pan fydd cynigion yn cael eu gwneud ar gyfer mesurau lliniaru a/neu wneud iawn, bydd angen gwybodaeth i gefnogi'r cynigion hynny. Lle bo'n briodol, dylai unrhyw gynlluniau a ddarperir ddangos unrhyw nodweddion neu gynefinoedd bywyd gwyllt o bwys yn ogystal â lleoliad cynefinoedd unrhyw rywogaethau sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 neu Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992.
- A13. Mae'n debyg y bydd angen cynnwys asesiadau o effaith a chynigion ar gyfer rheoli a chynnal a chadw hirdymor mewn ceisiadau am ddatblygiadau yng nghefn gwlad a fydd yn effeithio ar ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu buddiannau bioamrywiaeth. Gall y wybodaeth hon ffurfio rhan o Ddatganiad Amgylcheddol, os

oes angen un o'r rhain.

A14. Gall gofynion dilysu lleol ar gyfer ceisiadau cynllunio mawr bennu gwybodaeth lle gallai datblygiad arfaethedig effeithio ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth o bwysigrwydd lleol. Yn yr un modd efallai y byddant yn gofyn am wybodaeth am fuddiannau bioamrywiaeth cyfredol a'r effeithiau posibl arnynt yn yr un modd ag y mae'r Ffurflen Gais Safonol yn gofyn am wybodaeth am gynefinoedd a rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod. Ceir rhagor o gyngor ar warchod buddiannau bioamrywiaeth pwysig lleol yn Nodyn Cyngor Technegol 5: 'Gwarchod Natur a Chynllunio'. Gall deunyddiau a lunnir gan gyrrff eraill hefyd fod yn adnodd cyfeirio defnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol wrth ddatblygu gofynion dilysu lleol.⁵

Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd

A15. Bydd yn rhaid cael Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15 'Datblygu a Pherygl o Llifogydd' (2004) ar gyfer pob cais am ddatblygiad o fewn parthau llifogydd C1, C2 a'r rhannau hynny o barth B lle nodwyd bod llifogydd yn ystyriaeth o bwys o safbwynt problemau lleol. Pan fydd rhan o safle o fewn parth C1 neu C2, mater i'r awdurdod cynllunio lleol fydd penderfynu a oes angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Os na ddarperir digon o wybodaeth, bydd yr awdurdod yn gofyn am ragor o wybodaeth. Os na dderbynnir y wybodaeth y gofynnwyd amdani gall arwain at wrthod rhoi caniatâd neu beidio â chael dilysiad.

A16. Dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd fod yn briodol i faint a graddfa'r datblygiad arfaethedig a dylai edrych ar y peirianweithiau tebygol sy'n achosi'r llifogydd, a chanlyniadau'r llifogydd hynny ar y datblygiad. Dylai hefyd sefydlu a oes modd cynnwys mesurau lliniaru priodol yn nyluniad y datblygiad.

A17. Dylai'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gael ei wneud gan unigolyn cymwys sydd â'r cymwysterau priodol a dylai'r wybodaeth gael ei hystyried yn y broses ddylunio fanwl ac wrth ddethol ffyrdd o liniaru'r llifogydd. Mae Nodyn Cyngor Technegol 15: 'Datblygu a Pherygl o Llifogydd' (2004) yn rhoi arweiniad cynhwysfawr ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr yng nghyswllt cynnal Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd.

Asesiad Risg Cloddio am Lo

A18. Pan fydd cais yn dod o fewn yr ardal ymgynghori a ddiffinnir gan yr Awdurdod Glo, dylai'r Asesiad Risg Cloddio am Lo a gyhoeddir gan yr Awdurdod Glo fod yn rhan o'r cais, ynghyd ag ymchwiliad arbenigol ac asesiad o risg a mesurau unioni.

Asesiad Sŵn

A19. Os yw ceisiadau am ddatblygiad yn codi ystyriaethau sy'n ymwneud ag aflonyddu ar ddeiliaid adeiladau presennol cyfagos gan sŵn ac am ddatblygiad y credir ei fod yn

⁵ Mae'r Sefydliad Safonau Prydeinig wedi llunio Safon sydd ar gael yn gyhoeddus, PAS 2010 *Planning to halt the loss of Biodiversity* sydd ar ffurf argymhellion ar weithdrefnau safonol ar gyfer ystyried bioamrywiaeth yn y broses gynllunio. Hefyd mae Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol wedi datblygu templed arfer da (sydd ar gael yn <http://www.alge.org.uk>) sy'n rhoi gofynion dilysu manwl ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearogol.

sensitif i sŵn ac sy'n agos at ffynonellau sŵn cyfredol, dylent gael eu hategu gan asesiad sŵn wedi'i baratoi gan acwstegydd sydd â chymwysterau addas. Darperir arweiniad yn Nodyn Cyngor Technegol 11: 'Sŵn' (1997).

Asesiad Effaith Manwerthu

A20. Mae Nodyn Cyngor Technegol 4: 'Manwerthu a Chanol Trefi' (1996) yn datgan y dylai pob cais am ddatblygiadau manwerthu sydd ag arwynebedd llawr gros o fwy na 2,500 metr sgwâr gael ei ategu gan asesiad o effaith sy'n rhoi tystiolaeth ynghylch y dewis o safle, effeithiau economaidd ac effeithiau eraill, hygyrchedd ac effeithiau amgylcheddol. Efallai y bydd angen asesiadau hefyd ar gyfer rhai datblygiadau llai sy'n debygol o gael effaith fawr ar ganol tref neu ardal lai.

Gwerthusiad Anheddau Mentrau Gwledig

A21. Bydd angen rhoi tystiolaeth gadarn i ategu ceisiadau cynllunio am anheddau mentrau gwledig dros dro a pharhaol newydd mewn cefn gwlad agored. Rhaid darparu gwerthusiad anheddau mentrau gwledig gyda cheisiadau cynllunio am y math hwn o ddatblygiad a chynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r awdurdod cynllunio lleol i wneud asesiad llawn ac effeithiol. Mae manylion y wybodaeth i'w darparu gan yr ymgeisydd i'w cael yn Nodyn Cyngor Technegol 6 'Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy'.

Asesiad Trafnidiaeth

A22. Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' (4ydd argraffiad, 2011) yn pennu trothwyon datblygu ac os bydd cynigion yn uwch na'r trothwyon hyn disgwylir y bydd Asesiad Trafnidiaeth (AT) yn cael ei gyflwyno gyda'r cais cynllunio cysylltiedig. Dylai cwmpas a chynnwys yr AT adlewyrchu maint y datblygiad a goblygiadau trafndiaeth y cynnig. Fel rhan o broses yr AT dylid cynhyrchu 'Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth' (SGT) ar gyfer y datblygiad. Dylai'r AT ddarparu gwybodaeth am raniad moddol tebygol y teithiau i'r safle ac oddi yno, a dylai'r SGT roi manylion y mesurau arfaethedig i wella mynediad drwy drafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, i leihau'r angen am barcio sy'n gysylltiedig â'r cynnig, ac i liniaru effeithiau trafndiaeth. Ni fydd cyflwyno SGT gyda chais cynllunio o reidrwydd yn golygu bod y datblygiad yn dderbyniol. Gellir defnyddio nifer o ganllawiau arferion da ar gynlluniau teithio i gyfrannu at lunio'r SGT⁶

7 8 9 10

Arolwg Coed

A23. Mae'n rhaid cael arolwg coed ar gyfer unrhyw waith adeiladu neu beirianyddol lle mae coed o fewn safle'r cais neu o'i gwmpas. Dylid llunio'r datganiad yn unol â'r canllawiau yn BS5837:2005. Dan y Safon Prydeinig mae'n rhaid cael ymarferydd

6 'Using the planning process to secure travel plans: Best practice guidance for local planning authorities, developers and occupiers', Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM)/Adran Drafnidiaeth, 2002

7 'Preparing Your Organisation for Transport in the Future: The Benefits of Green Transport Plans', DETR, 1999

8 'School Travel - Strategies and Plans: A Best Practice Guide for Local Planning Authorities', DETR 1999

9 'Green Transport Plans - Best Practice Guidance Note 2', Grŵp Cyngori Trafnidiaeth Cymru, 1999

10 'Smarter Choices - Changing the way we travel', DfT, 2004

coedyddiaeth i gofnodi gwybodaeth am goed ar y safle cyn cyflawni unrhyw waith dylunio penodol ar gyfer y datblygiad ac yn annibynnol arno.

Cynlluniau a Gwybodaeth Berthnasol Arall

- A24. Yn ogystal â'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Ffurflen Gais Safonol, mae'r rhestrau yn Atodiad 1(A) yn nodi gwybodaeth berthnasol arall y mae'n rhaid dan y gyfraith ei chynnwys gyda'r ffurflen at ddibenion dilysu.
- A25. Os oes rhaid cyflwyno planiau neu luniadau gyda cheisiadau, rhaid eu llunio i raddfa glir ac, yn achos planiau, rhaid dangos cyfeiriad y gogledd.
- A26. Os na fydd planiau, lluniadau a gwybodaeth sy'n cael eu cyflwyno gyda'r cais yn cael eu cyflwyno'n electronig, efallai y bydd yn rhaid cyflwyno tri chopi ychwanegol ynghyd â'r gwreiddiol – mae'r rhestrau yn Atodiad A(1) yn nodi'r systemau caniatâd lle mae hyn yn ofyniad.

Gwybodaeth Ategol Ychwanegol sy'n Ofynnol gan Ddeddfwriaeth

Datganiadau Dylunio a Mynediad

- A27. Mae Erthygl 7 o'r DMPWO yn parhau'r gofyniad presennol i gyflwyno datganiad dylunio a mynediad (DDM) gyda phob cais cynllunio (amlinellol a llawn) ac eithrio rhai ar gyfer:
- Gwaith peirianyddol neu fwyngloddio;
 - Datblygiad gan ddeiliaid tŷ (h.y. datblygu tŷ annedd presennol, neu ddatblygu o fewn y cwrtil at unrhyw bwrpas perthnasol i'w fwynhau fel tŷ annedd) (Sylwer: bydd rhaid cael datganiad ar gyfer pob annedd newydd);
 - Newid o bwys yn nefnydd y tir neu adeiladau. Ond, os bydd y newid yn y defnydd yn golygu bod angen mynediad gan weithiwr, neu ddarparu gwasanaethau (gan gynnwys nwyddau neu gyfleusterau) i'r cyhoedd, yna bydd yn rhaid cael datganiad sy'n delio â materion mynediad i ddelio â materion dylunio'n unig.
- A28. Rhaid darparu DDM hefyd dan reoliad 6 o Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (2012) gyda phob cais am ganiatâd adeilad rhestredig, sy'n parhau'r gofyniad presennol. Ond, os yw'r cais ar gyfer gwaith mewnol yn unig, dim ond materion dylunio y mae'n rhaid eu trafod yn y datganiad.
- A29. Os oes raid i DDM a gyflwynir gyda chais cynllunio ddelio â materion dylunio, rhaid iddo gynnwys y penawdau canlynol, er na fydd yn gyfyngedig iddynt:
- Cynaliadwyedd amgylcheddol
 - Symud i mewn ac allan o'r datblygiad ac o'i fewn

- Cymeriad (gan gynnwys tirlunio, maint, graddfa ac ymddangosiad)
- Diogelwch cymunedol

Rhaid iddo ddangos hefyd sut y mae cyd-destun ffisegol, cymdeithasol, economaidd a pholisi'r datblygiad wedi'i werthuso a'i ystyried.

A30. Rhaid i DDM ar gyfer ceisiadau am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ymdrin, fel gofyniad sylfaenol, ag ymddangosiad, cynaliadwyedd amgylcheddol, cynllun a maint a dylai egluro sut mae'r dyluniad yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Pwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïaeth arbennig yr adeilad
- Nodweddion ffisegol penodol yr adeilad (gan gynnwys ei arwyddocâd hanesyddol a/neu bensaernïol) sy'n cyfiawnhau ei ddynodi'n adeilad rhestredig
- Lleoliad yr adeilad.

A31. O ran mynediad, rhaid i DDM a gyflwynir gyda chais cynllunio esbonio'r polisi neu'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â mynediad (gan gynnwys sut y mae polisiâu perthnasol y cynllun datblygu wedi cael eu hystyried, sut y rhoddwyd sylw i unrhyw faterion penodol a all effeithio ar fynediad a sut y bydd y nodweddion sy'n sicrhau mynediad yn cael eu cadw).

A32. Os oes raid i DDM a gyflwynir gyda chais am ganiatâd adeilad rhestredig ddelio â materion mynediad, rhaid iddo esbonio'r polisi neu'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer mynediad, gan gynnwys manylion dulliau mynediad eraill sydd wedi'u hystyried. Rhaid i'r DDM hefyd esbonio sut mae'r canlynol wedi'u hystyried: polisiâu perthnasol yn y cynllun datblygu, pwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol arbennig yr adeilad, y nodweddion sy'n cyfiawnhau rhestru'r adeilad, a lleoliad yr adeilad.

A33. Dylid rhoi darlun o'r DDM, fel y bo'n briodol, drwy'r canlynol:

- Dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun
- Planiau, gweddluniau a thrawsluniau
- Ffotograffau o'r safle a'i gyffiniau
- Darluniau eraill fel persbectifau

A34. Ceir canllawiau mwy manwl ar gynnwys Datganiad Dylunio a Mynediad yn Atodiad 1 i Nodyn Cyngor Technegol 12: 'Dylunio' (2009).

Datganiad Amgylcheddol

A35. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (SI 1999/293), fel y'u diwygiwyd, yn nodi'r amgylchiadau pan fydd yn rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA). Gall AEA osgoi'r angen am asesiadau eraill

mwy penodol.

A36. Os oes rhaid cael AEA, mae Atodlen 4 i'r rheoliadau'n nodi'r wybodaeth a ddylai gael ei chynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol. Rhaid ystyried y wybodaeth yn y Datganiad Amgylcheddol pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu a fydd yn rhoi caniatâd cynllunio. Gallai fod yn fuddiol i ddatblygwr wneud ais am 'farn sgrinio' (h.y. i ganfod a oes angen AEA) gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn cyflwyno cais cynllunio.

Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Pelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP)

A37. Dan Erthygl 9 o'r DMPWO a Pharagraff A.3(4) (b) o Ran 24 i Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd, rhaid cynnwys datganiad ICNIRP gyda cheisiadau am adeiladu neu osod un neu fwy o antenau at ddibenion gweithredu system delathrebu.

A38. Mae Atodiad G "Cod Arferion Gorau ar Ddatblygu Rhwydweithiau Ffonau Symudol" (Gorffennaf 2003) Llywodraeth Cymru yn cynnwys enghraifft o'r datganiad hwn yr awgrymir ei ddefnyddio.

Y Ffi Gywir (os oes ffi i'w thalu)

A39. Mae'n rhaid talu ffi ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau a Cheisiadau Tybiedig) 1989 fel y'u diwygiwyd. Mae'r rheoliadau'n nodi lle mae angen talu ffioedd ac unrhyw eithriadau.

Planiau a Lluniadau sy'n cael eu cynnwys gyda Cheisiadau - Arferion Da

A40. Mae'r gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chyflwyno planiau a lluniadau gyda cheisiadau yn cael eu nodi uchod ac yn Atodiad 1(A). Mae'r arweiniad isod yn darparu rhagor o gyngor i helpu i fodloni'r gofynion hyn ac i ddarparu dull mwy safonol a chyson ar gyfer cyflwyno gwybodaeth o'r fath. Mae'n defnyddio arferion gorau ac arferion sydd wedi'u sefydlu.

Plan o'r Lleoliad

A41. Dylid llunio'r planiau gan ddefnyddio graddfa glir, 1:1250 neu 1:2500 yw'r gorau. Dylent fod yn seiliedig ar fap diweddar a dylent, os oes modd, ddangos o leiaf dwy ffordd a enwir ac adeiladau cyfagos. Dylai'r adeiladau a ddangosir gael eu rhifo neu eu henwi i sicrhau bod union leoliad safle'r cais yn glir.

A42. Dylid marcio ymyl safle'r cais yn glir mewn coch. Dylai gynnwys yr holl dir sydd ei angen ar gyfer y datblygiad arfaethedig – er enghraifft, tir ar gyfer cael mynediad i'r safle o briffordd gyhoeddus, lleiniau gwelededd, tirlunio, manau parcio a manau agored o gwmpas adeiladau.

A43. Dylid tynnu llinell las o gwmpas unrhyw dir arall y mae'r ymgeisydd yn berchen arno,

sy'n agos at safle'r cais neu'n cydffinio ag ef.

Planiau o'r Safle a Phlantiau Eraill

A44. Er mwyn cael dealltwriaeth gliriach a mwy cywir o'r safle, efallai y bydd yn rhaid cyflwyno plan o'r safle. Dylid llunio'r plan o'r safle gan ddefnyddio graddfa glir, 1:500 neu 1:200 os oes modd, a nodi (lle bo'n berthnasol) y wybodaeth ganlynol:

a) y datblygiad arfaethedig mewn perthynas â ffiniau'r safle ac adeiladau eraill sydd eisoes ar y safle, gyda dimensiynau ysgrifenedig gan gynnwys y rheini at y ffiniau;

b) yr holl adeiladau, ffyrdd, a llwybrau troed ar dir sy'n ffinio â'r safle gan gynnwys y trefniadau mynediad;

c) yr holl hawliau tramwy cyhoeddus¹¹ sy'n croesi'r safle neu sy'n ffinio â'r safle;

d) lleoliad yr holl goed ar y safle, a'r rheini ar dir cyfagos a allai ddylanwadu ar y datblygiad neu y gallai'r datblygiad effeithio arnynt hwy;

e) hyd a lled unrhyw arwynebau caled a'u math; a

f) math o ffiniau, gan gynnwys waliau neu ffensys lle caiff hyn ei gynnig.

A45. Yn dibynnu ar y math o gais (gweler Atodiad 1(A)) efallai y bydd angen cyflwyno planiau eraill, a all gynnwys:

- **Gweddlluniau presennol a'r gweddlluniau a argymhellir**

Dylai'r rhain [gael eu darlunio i raddfa glir (e.e.1:50 or 1:100) gan] ddangos yn glir y gwaith arfaethedig mewn perthynas â'r hyn sydd eisoes yno. Er mwyn cynorthwyo'r awdurdod cynllunio lleol i ddeall y datblygiad sy'n cael ei gynnig, rhaid dangos pob ochr o'r datblygiad arfaethedig a dylai'r ochrau hyn ddangos, lle bo hynny'n bosibl, y deunyddiau adeiladu arfaethedig a steil, deunyddiau a gorffeniad y ffenestri a'r drysau. Rhaid cynnwys gweddlluniau gwag hefyd, dim ond i ddangos mai dyma'r achos.

Os yw gweddllun arfaethedig yn sownd mewn adeilad arall neu'n agos iawn iddo, dylai'r lluniadau ddangos yn glir y berthynas rhwng yr adeiladau, a nodi lleoliadau'r agoriadau ym mhob eiddo.

- **Planiau llawr presennol a'r rhai a argymhellir**

Dylai'r rhain gael eu llunio ar raddfa glir (e.e. 1:50 or 1:100) a dylent esbonio'r cynnig yn fanwl. Os oes waliau neu adeiladau i'w dymchwel, dylid dangos y rhain yn glir. Dylai'r lluniadau a gyflwynir ddangos manylion yr adeilad(au) presennol yn ogystal â'r rheini ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Dylid dangos adeiladau newydd hefyd yn eu cyd-destun gydag adeiladau cyfagos (gan gynnwys rhifau'r

adeiladau os yw hynny'n berthnasol).

- **Trawsluniau presennol a'r rhai a argymhellir ar gyfer y safle a lefelau gorffenedig y safle a'r lloriau**

Os yw cynnig yn cynnwys newid lefelau'r tir, dylid cyflwyno lluniadau esboniadol a fydd yn dangos y lefelau presennol a'r lefelau gorffenedig. Dylid cynnwys manylion y sylfeini a'r bondoeau a sut yr eir ati i osgoi ymledu i dir cyfagos. Rhaid lluniadu planiau o'r fath ar raddfa glir (e.e. 1:50 or 1:100) a dangos croestoriad(au) drwy'r adeilad(au) arfaethedig.

Dylid cyflwyno gwybodaeth lawn hefyd i ddangos perthynas yr adeiladau arfaethedig â lefelau presennol y safle a datblygiad cyfagos. Dylai'r planiau hyn ddangos lefelau presennol y safle a'r lefelau llawr gorffenedig (gyda'r lefelau wedi'u cysylltu â phwynt datwm sefydlog oddi ar y safle). Dylent hefyd ddangos y cynigion mewn perthynas ag adeiladau cyfagos. Bydd hyn yn ofynnol ar gyfer pob cais sy'n cynnwys adeiladau newydd.

Yn achos datblygiadau gan ddeiliaid tŷ, gallai'r lefelau fod yn amlwg o'r planiau llawr a'r gweddlluniau. Ond, yn arbennig yn achos safleoedd sydd ar oleddf, bydd angen dangos y berthynas rhwng y cynigion a'r lefelau tir presennol neu, lle byddai lefelau tir y tu allan i'r estyniad yn cael eu newid.

- **Cynlluniau to presennol a'r rhai a argymhellir**

Mae'n rhaid darparu planiau to presennol ac arfaethedig pan fo'r datblygiad arfaethedig yn golygu newid neu ymestyn to. Dylid llunio'r rhain ar raddfa briodol, dylent ddangos cyfeiriad y gogledd yn gywir a dangos siâp presennol/arfaethedig y to. Hefyd fel arfer rhoddir manylion y deunyddiau to a'u lleoliad ar blaniau o'r fath.

- **Lluniadau hysbysebion**

Rhaid darparu lluniadau o'r hysbysebion ar gyfer ceisiadau am ganiatâd hysbyseb. Mae'r Rheoliadau Rheoli Hysbysebion yn benodol yn nodi y bydd yn rhaid i'r plan a fydd yn cael ei gyflwyno gyda chais o'r fath nodi'r safle drwy gyfeirio at o leiaf dwy ffordd a enwir a nodi safle arfaethedig yr hysbyseb.

Er mwyn helpu'r awdurdod cynllunio lleol i ddeall yr hysbyseb arfaethedig, dylid darparu gwybodaeth megis maint yr hysbyseb, ei lleoliad, y deunyddiau a'r lliwiau i'w defnyddio, uchder o'r ddaear, y graddau y bydd yn estyn allan a manylion y dull a'r lliw(iau) goleuo os yw'n briodol.

- **Manylion Adeilad Rhestredig**

Dylai ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig gael eu cyflwyno gyda phlaniau sy'n dangos y gwaith sy'n destun y cais. Dylent ddangos y manylion pensaernïol yr effeithir arnynt gan y cynigion megis drysau, ffenestri, blaenau siopau, paneli,

llefydd tân, mowldiau plaster a manylion addurnol eraill sy'n dangos yn glir pa rai sy'n nodweddion newydd a pha rai fydd yn cael eu symud.

Ceisiadau a Wneir gan Weithredwyr Ffonau Symudol- Arferion Da

A.46 Cytunwyd ar "God Arferion Gorau ar Ddatblygu'r Rhwydwaith Ffonau Symudol" Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2003) gan Gymdeithas y Gweithredwyr Ffonau Symudol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'n darparu canllawiau manwl i weithredwyr ffonau symudol ar gyflwyno ceisiadau cynllunio/ceisiadau cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer datblygiadau telathrebu a'r wybodaeth y dylid ei chyflwyno gyda cheisiadau o'r fath.

Atodiad B

Enghreifftiau o Ofynion Dilysu Lleol

- C1. Dylai gofynion dilysu lleol gynnwys gwybodaeth sy'n hanfodol er mwyn penderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau mawr sy'n deillio o amgylchiadau lleol yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol. Gall hyn fod yn berthnasol i geisiadau mewn ardaloedd daearyddol penodol oherwydd yr amodau amgylcheddol megis presenoldeb radon, ardaloedd rheoli ansawdd aer, neu ystyriaethau iaith. Gall fod yn berthnasol i fathau penodol o ddatblygiad ar draws ardal y cynllun, megis tai. Efallai hefyd y bydd angen esbonio'r defnydd o bolisi cenedlaethol gan gynnwys teilwra eitemau o'r gofynion dilysu cenedlaethol i amgylchiadau lleol lle ceir tystiolaeth bod angen amrywiadau lleol.
- C2. Mae'r canlynol yn **Enghreifftiau** o'r manylion angenrheidiol i ddarparu sicrwydd i ymgeiswyr ynghylch pa ofynion gwybodaeth lleol sy'n berthnasol.

Enghraifft o Ardal Ddaearyddol

Ymchwiliad i Dir Wedi'i Halogi

Mae'r diwydiant cynhyrchu a phrosesu metelau wedi bod yn nodwedd o'r Sir ers sawl blwyddyn. Canolbwynt y gweithgarwch fu'r trefi canlynol, gweithgarwch sydd o bosibl wedi arwain at ddyddodion helaeth o fetelau trwm gan gynnwys cadmiwm a mercwri.

- a) Trefach
- b) Trefawr

Dylai cynigwyr datblygiad yn y trefi hyn drefnu trafodaethau cyn ymgeisio gyda'r awdurdod cynllunio lleol a rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys lechyd yr Amgylchedd, Rheoli Adeiladu, tîm gwarchod natur ac archaeoleg yr awdurdod cynllunio lleol, ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Bydd yr awdurdod yn helpu i bennu a oes angen unrhyw ofynion o ran Asesu'r Effaith Amgylcheddol, a nodi pa wybodaeth y bydd yr awdurdod ei hangen i wneud penderfyniad.

I sicrhau bod y dyddodion yn cael eu pennu'n iawn ac yn cael eu hadfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol yn ystod y broses ddatblygu, bydd rhaid i geisiadau am ddatblygiad sy'n cynnwys cloddio ar dir a arferai gael ei ddefnyddio at ddibenion diwydiannol gynnwys astudiaeth tir halogedig.

Bydd angen i geisiadau ddangos naill ai nad oes llawer o halogi wedi digwydd ar y safle neu bod modd goresgyn unrhyw halogiad posibl neu wirioneddol, a thrwy hynny sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

Dylai'r datblygwr gyflwyno manylion cynigion i ddelio â'r halogi i gynnwys:

- i) natur, maint a'r mathau o halogiad ar y safle
- ii) mesurau i drin/cael gwared â'r halogiad i wneud yn siŵr fod y safle'n addas i'r defnydd arfaethedig
- iii) mesurau i ddelio â halogiad yn ystod gwaith adeiladu
- iv) cyflwr y safle ar ôl cwblhau'r mesurau dadhalogi

Dylai pob ymchwiliad i dir halogedig posibl gael ei gynnal gan, neu o dan gyfarwyddwyd unigolyn cymwys gyda'r cymwysterau addas ac yn unol â BS10175 (2001) *Cod Ymarfer ar gyfer Ymchwilio i Safleoedd Halogedig Posibl*.

Ceir rhagor o gyngor ar y gofynion gwybodaeth yn mholisiâu X1 ac X2 y Cynllun Datblygu Lleol, a hefyd mewn canllawiau cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru (2011), a chylchlythyr 22/87 Swyddfa Cymru 'Datblygu Tir Halogedig'.

Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol

- Natur, graddfa a hyd a lled y tir halogedig a'r perygl i iechyd pobl
- Adfer safleoedd llygredig neu safleoedd tir diffaith

Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol

Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' (2011) yn nodi y dylai'r perygl o dir sydd wedi'i halogi gael ei leihau. Yn benodol mae Paragraff 13.7.2 yn nodi os bydd materion sylweddol yn codi mewn perthynas â halogi, bydd angen tystiolaeth ar yr awdurdod bod ymchwiliad ac asesiad risg manwl wedi cael eu cynnal cyn penderfynu ar y cais, er mwyn gallu defnyddio'r tir mewn modd buddiol. Pan fo modd i fesurau adferol derbyniol oresgyn halogiad o'r fath, gellir rhoi caniatâd cynllunio gydag amodau sy'n pennu'r mesurau angenrheidiol. Os nad oes modd goresgyn yr halogiad yn foddhaol, gall yr awdurdod wrthod rhoi caniatâd cynllunio.

Dogfennau eraill

[Insert other relevant guidance documents or information sources as appropriate]

Enghraifft o Fath o Ddatblygiad

Cyfleuster Prosesu Bwyd

Gall cyfleusterau prosesu bwyd achosi niwsans neu anhwylostod i breswylwyr cyfagos ac i ddefnyddwyr adeiladau cyfagos. Gall arogleuon coginio o gyfleusterau prosesu bwyd achosi problemau amwynder i adeiladau cyfagos.

Gyda cheisiadau am gyfleusterau prosesu bwyd dylid cynnwys asesiad awyru oherwydd gellir lleihau problemau sy'n ymwneud ag arogleuon drwy osod cyfleusterau echdynnu wedi'u dylunio'n addas. Dylai'r asesiad gynnwys manylion am sut yr eir ati i ddelio ag arogleuon, mygdarthau a sbwriel, gan gynnwys lleoliad simneiau mygdarth a phibellau.

Dylai'r cyfleusterau echdynnu fod mewn lleoliad addas ac â lliw a dyluniad sy'n briodol ac yn sensitif i'w gyd-destun. **Dylid cyflwyno manylion am sut y gall ymddangosiad yr adeilad newid, gan gynnwys lleoliad unrhyw bibellau allanol, simneiau ayb. i sicrhau na fyddai'r rhain yn amharu ar gymeriad gweledol yr ardal. Dylai planiau'r gweddluniau ddangos llwybr ac allanfa pibellau mewn perthynas â'r adeilad neu adeiladau cyfagos.**

Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol

- Polisiâu strategol ar gyfer datblygiadau a allai achosi llygredd
- Osgoi gwrthdaro posibl rhwng defnyddiau tir anghydnaws

Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol

Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' (2011), paragraff 13.12 yn nodi y bydd potensial llygredd i effeithio ar y ffordd y defnyddir tir yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio.

Dogfennau eraill

[Insert other relevant guidance documents or information sources as appropriate]